

AT Y CYHOEDD.

ANWYL FRODYR A CHWIORYDD,

Yr wyf fi, Richard Griffith Williams, Stiward Llong, wedi cyfarfod a niwed i fy ochr chwith ar yr 8fed o Hydref, 1894, yn y Low Level Crossing ar y Cei yn Barry Dock. Gafaelodd dwy ran o râff oedd yn gysylltiedig a wagen o lo, 15 tunell o bwysau, yn y rhan isaf o fy nghoes, cododd fi oddiar y ddaear, a thafodd fi i lawr; wedi hyny llithrodd y rhâff o dan fy migyrnau, gan fy nghodi ugain modfedd oddiar y ddaear, fel y cafodd fy nbroed ei gwasgu yn enbyd, a fy nghorff ei guro yn erbyn y llawr. Y canlyniad fu i fy nghoes gael ei brifo yn dost ac i fy nghorff dderbyn niweidiau mewnol difrifol, gan fy mod wedi gwaedu dair gwaeth, y tro diweddaf yn Awst, 1897, pan y rheddodd fy ngwaed am bedwar diwrnod a phedair noswaith. Yr wyf o hyd yn dioddef poen yn fy ochr chwith i lawr hyd fy nhraed, ac yr wyf yn analluog i ganlyn fy ngwaith ar y môr, na gwneyd dim ar y tir.

Drwy garedigrwydd cyfeillion ynglŷn a gwerthiant y Caneuon Cysse-gredig hyn, cynorthwyr fi i gael fy mwyd a'm lletty bob dydd, gan na chefais unrhyw ad-daliad oddiwrth Gwmpeini Dock a Rheilffordd Barry, y Cyfarwyddwyr, na'r Goruchwyliwr, Mr. R. Evans.

Teimlwn yn ddiolchgar pe bai unrhyw gyfeillion yn fy nghynorthwyo i ddwyn fy achos ger bron y Llysoedd Gwladol.

Ydwyf, eich gostyngedig frawd,

Awst 22ain, 1898.

R. G. WILLIAMS.

I.

CE'S ddwr o'r graig i yfed,
I dori'm syched mawr;
Ce's beunydd fara i'w fwyta,
O'r nef y daeth i lawr;
Ce's delyn tu yma i angu,
Fy holl cystuddiau ffôd,
I ganu i'r Oen fu farw,
Mae'n Briod wrth fy modd.

II.

Mi gysgaf hân yn esmwyth
Ar fyr yn llwch y llawr,
Yn holliaeth, wedi gorphen
Milwriaeth f' Argwydd mawr;
Heb elyn i fy mlino
I dragwyddoldeb maith;
Caf fuddugoliaeth hollol
Yn lân ar ben fy nhaith.

—:0:—

I.

OS dôf fi trwy'r aniwlech,
Rhyfeddaf fyth Dy rās,
A'm henaid i lonyddwch
'R ol gânwaith gollir maes,
A'r maglau wedi eu tôri,
A'm traed yn gwbl rydd;
Os gwelir fi fel hyny,
Tragwyddol foli a fydd.

II.

Os gwelir fi, bechadur,
Ryw ddydd ar ben fy nhaith,
Rhyfeddol fydd y canu,
A newydd fydd yr iaith;
Yn seinio "Buddugoliaeth,"
Am iachawdriaeth lawn,
Heb ofni colli'r frwydr,
Na boreu na phrydnawn.

—:0:—

I.

BYDD myrdd o ryfeddodau
Ar doriad boreu wawr,
Pan ddolo plant y tônuau
Yn iach o'r cystudd mawr;
Oll yn eu gynau gwynion,
Ac ar eu newydd wedd,
Yn debyg idd eu Harglwydd
Yn d'od i'r lân o'r bedd.

MAE golwg ar byrth angu
Yn erchyll iawn i mi;
Mae dyfroedd yr Iorddonen
Yn ddyntion ac yn ddu:
Bydd rhodio'r dyffryn tywyl
Yn drwm i'm henaid trist
Ar ffordd yn dra diethr,
Heb gwmi Iesu Grist.

II.

Nid oes ond gweled Iesu
Yn gwaedu ar y bryn,
A ffydd i ymaffyd ynddo,
A'm cynnal yn y glyn:
Fe'm gwared rhag euogrwydd,
Ac ofnaw angu du;
Fe wna y ffordd yn hyfryd
Oddi yma i'r Ganaan fry.

—:0:—

"DUW, cadw ar bob awr,
Frenhines Brydain Fawr;"
Duw, cadw hon.
Teyrnased etto'n hir,
A than ei nawdd yn wir,
Boed blodau hedd trwy'r tir;
Duw, cadw hon.

II.

Bydd iddi'n darian gref,
Rho iddi nawdd o'r nef;
Duw, cadw hon.
Pob rhyw eynol gâd,
Eiddigedd, lliid, a brâd,
Darostwng nefol Dad;
Duw, cadw hon.

—:0:—

MAE hên Wlad fy Nhadau yn anwyl i mi,
Gwlad beirdd a chantorion enwogion o fri;
Ei gwrol ryfelwyr, gwladgarwyr tra mād,
Tros ryddid gollasant eu gwaed.

Cydgan—

Gwlad, gwlad, pleidiol wyf im gwlad,
Tra môr yn fur i'r bur hoff bau,
O bydded i'r hen iaith barhau.

II.

Hên Gymru fynnyddig, paradwys y bardd,
Pob dyffryn, pob chlogwyn, i'm golwg sydd
hardd;
Trwy deimlad gwladgarol, mor swynol yw si
Ei nentydd, afonydd i fi.

Cydgan—Gwlad, gwlad, &c.

III.

Os treisiodd y gelyn fy ngwlad dan ei droed,
Mae hen iaith y Cymry mor fyw ag erioed,
Ni luddiwyd yr awen gan erchyll law brād,
Na thelyn bēreiniol fy ngwlad.

Cydgan—Gwlad, gwlad, &c.